



Eich cyf/Your ref P-05-1100
Ein cyf/Our ref DET/03620/20

Janet Finch-Saunders MS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau

22 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 7 Rhagfyr ar ran y Pwyllgor Deisebau am Ddeiseb P-05-110: Caniatáu i dafarndai a bwytaï yng Nghymru weini alcohol/aros ar agor ar ôl 6pm.

Ers i'ch gohebiaeth ddod i law, fe fyddwch yn gwybod am gyhoeddiad y Prif Weinidog ei fod wedi gorfod gwneud penderfyniad anodd a dod â chyfyngiadau lefel rhybudd pedwar i rym ganol nos 19 Rhagfyr. Mae hyn yn golygu y bydd lletygarwch a siopau nad ydyn nhw'n hanfodol, gwasanaethau cyswllt agos, campfeydd a chanolfannau hamdden yn gorfod cau. Bydd yn rhaid i bawb aros gartref, ond gyda dwy aelwyd yn cael dod ynghyd i ffurfio swigen ddydd Nadolig yn unig. Gydol y cyfnod lefel rhybudd pedwar, bydd aelwyd un person yn cael ymuno ag un aelwyd arall. Er ein bod ni i gyd am osgoi ymyrryd ymhellach ar fusnesau a chynlluniau pobl ar gyfer y Nadolig, ein prif ddyletswydd yw diogelu bywydau yma yng Nghymru.

Mae fersiwn newydd o gynllun rheoli Covid-19 Cymru wedi'i gyhoeddi ac y mae ar gael yn: <https://lyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefelau-rhybudd-yng-nghymru>. Mae'r cynllun yn esbonio'n fanwl sut y caiff mesurau cenedlaethol eu cyflwyno mewn ffordd fwy unffurf a rhagweladwy, gan ddibynnu ar amrywiaeth o ddangosyddion, gan gynnwys lefel y feirws yng Nghymru a'r perygl o gael eich heintio.

Fel ymateb i'r Pwyllgor a'r pwyntiau penodol a godwyd gan y Deisebwr, rydym wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn gan ystyried y niwed y gallai'r coronafeirws ei wneud a'r risgiau i'r economi ac i gymdeithas o osod rhagor o gyfyngiadau ar y diwydiant lletygarwch a'r diwydiant hamdden dan do.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@lyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae ein mesurau cenedlaethol wedi'u dylunio i'n helpu i'n diogelu yn ein bywydau pob dydd, yn enwedig yn y sefyllfaoedd lle down i gysylltiad â phobl eraill a lle mae perygl inni ddal a lledaenu'r coronafeirws. Mae'r coronafeirws yn ffynnu ar ymddygiad arferol pobl, a phan fyddwn yn dod i gysylltiad â'n gilydd am unrhyw hyd o amser, mae perygl i'r coronafeirws gael ei basio ymlaen. Er bod mwyafrif y busnesau lletygarwch ledled Cymru wedi gweithio'n galed i gadw at y rheolau a rhoi amgylchedd diogel i'w cwsmeriaid, astudiodd TAC (y Gell Cyngori Technegol) y dystiolaeth:

<https://www.gov.uk/government/publications/transmission-risk-in-the-hospitality-sector/transmission-risk-in-the-hospitality-sector> sy'n cefnogi'r farn bod alcohol yn dal yn ffactor bwysig o ran lledaenu clefydau heintus gan helpu gwyddonwyr i ddeall pryd mae'r feirws yn cael ei ledaenu. Mae yfed alcohol – yn enwedig gormod o alcohol – yn gallu gwneud i bobl ymddwyn mewn ffordd sy'n llai ystyriol o'r risgiau. Mae'n gallu ei gwneud hi'n anoddach i bobl gofio ble y buon nhw a chyda phwy y maen nhw wedi bod mewn cysylltiad agos pan fydd y tîm olrhain cysylltiadau'n eu holi pe bai rhywun yn cael prawf positif. Nid yw'r rheoliadau hyn yn pigo ar sector penodol – y bwriad yw cryfhau'r pecyn cenedlaethol o fesurau sy'n ceisio diogelu iechyd y cyhoedd a lleihau'r achosion o'r coronafeirws yng Nghymru.

I gefnogi'r sectorau lletygarwch, hamdden a manwerthu, rydym yn creu pecyn o gymorth gwerth £340m i helpu busnesau fydd yn teimlo effeithiau'r cyfyngiadau i'r Flwyddyn Newydd. Bydd yn cynnwys cronfa o £180m ar gyfer busnesau lletygarwch a hamdden a'r gadwyn gyflenwi – mae erfyn ar wefan [Busnes Cymru](#) y gall busnesau ei ddefnyddio i weld a ydyn nhw'n gymwys am yr arian, a byddwch yn gallu gwneud cais am yr arian o'r wythnos sy'n dechrau 11 Ionawr.

Mae llawer o bobl yn cadw at y rheolau ac rydym yn ddiolchgar i fusnesau lletygarwch sydd ar y cyfan wedi gweithio'n galed iawn i gadw pobl yn ddiogel. Er mai prif amcan y mesurau yw cadw lefel y risg mor fach â phosibl, mae cyfrifoldeb ar bawb o dan ei amgylchiadau unigol personol i ystyried beth yw'r peth doethaf i'w wneud rhag lledaenu'r feirws.

Yn gywir,



Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism